**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

I S D D E D D F W R I A E T H

# 2006 Rhif 47

# DEDDF SAFONAU GOFAL 2000

## SAFONAU GOFYNNOL CENEDLAETHOL AR GYFER GWASANAETHAU GOFAL IECHYD PREIFAT A GWIRFODDOL 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *27 Mehefin 2006* |
| *Yn dod i rym* | *6 Gorffennaf 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 23 o Ddeddf Safonau Gofal(**1**) drwy hyn yn gwneud datganiad sy'n diwygio'r datganiad o'r enw Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol.

**Cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Daw'r datganiad hwn i rym ar 6 Gorffennaf 2006.

(2) Mae'r datganiad hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y datganiad hwn ystyr "y datganiad gwreiddiol" ("*the original statement*") yw'r "Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol" a gyhoeddwyd ar 17 Ebrill 2002.

(**1**) 2000 p.14. Mae'r pwerau yn arferadwy gan y Gweinidog priodol a ddiffinnir yn adran 121(1) o ran Cymru fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Diwygio'r datganiad gwreiddiol**

**2.** Mae'r datganiad gwreiddiol wedi'i ddiwygio fel a ganlyn:-

(1) Yn nheitl Pennod 15 o'r testun Saesneg rhodder "Introduction to Standards PD1 to PD212" yn lle "Introduction to Standards PD1 to PD8".

(2) Ar ôl Safon PD7 rhodder:

# "Asiantaethau Meddygol Annibynnol

Nod y safonau hyn yw rhoi sicrwydd i'r cleifion am ansawdd gwaith yr asiantaethau hyn.

Gweler hefyd, yn enwedig, reoliadau 47 o'r Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol.

# Y Trefniadau ar gyfer Darparu Triniaeth

**Y CANLYNIAD**
Mae'r cleifion yn cael sicrwydd bod trefniadau priodol ar gyfer pob agwedd ar eu triniaeth wedi'u sefydlu.

**SAFON PD9**

PD9.1 Darganfyddir hanes meddygol y claf cyn bod unrhyw driniaeth yn cael ei darparu.

PD9.2 Hysbysir cleifion ynghylch y ffi ddisgwyliedig am y driniaeth arfaethedig neu'r ymgynghoriad cyn cychwyn ar y driniaeth.

PD9.3 Os bydd anhwylderau sy'n ddifrifol o bosibl neu'r rhai sy'n glinigol arwyddocaol yn cael eu nodi, mae systemau atgyfeirio wedi'u sefydlu i warantu camau dilynol clinigol priodol.

# Rhoi presgripsiynau

(2) Y CANLYNIAD

Rhoddir presgripsiynau am feddyginiaeth yn ddiogel ac yn effeithiol.

(3) SAFON PD10

PD10.1 Mae polisïau wedi'u sefydlu ar gyfer rhoi presgripsiynau am feddyginiaeth yn effeithiol, ac

maent yn cydymffurfio â thystiolaeth sydd wedi'i chyhoeddi.

PD10.2 Mae'r cleifion yn cael gwybodaeth am y meddyginiaethau y rhoddir presgripsiynau amdanynt gan gynnwys sut i'w cymryd, y manteision a'r sgil-effeithiau posibl.

PD10.3 Mae rhoi presgripsiynau am wrthiselyddion a bensoodiasapinau yn cael ei fonitro'n rheolaidd yng ngoleuni canllawiau sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth.

PD10.4 Mae cofnod o'r cyffuriau sydd wedi'u storio gan yr asiantaeth.

# Gwasanaethau Patholeg

**Y CANLYNIAD**

Mae'r cleifion yn cael sicrwydd bod gwasanaethau patholeg effeithiol wedi'u sefydlu.

**SAFON PD11**

PD11.1 Mae yna weithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer cofnodi a labelu pob sbesimen yn gywir.

PD11.2 Mae sbesimenau yn cael eu storio ar dymheredd priodol.

PD11.3 Mae cytundeb ysgrifenedig gyda labordy ar gyfer darparu gwasanaethau patholeg.

PD11.4 Mae gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer trosglwyddo a chludo sbesimenau, gan gynnwys trefniadau ar gyfer amddiffyn y rhai sy'n trafod eitemau o'r fath wrth eu symud.

# Gwybodaeth i Feddygon Teulu

**Y CANLYNIAD**

Mae'r cleifion yn cael cyfle i gydsynio bod gwybodaeth am eu triniaeth yn cael ei throsglwyddo i'w meddyg teulu arferol neu i wrthod gwneud hynny.

**SAFON PD12**

PD12.1 Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod polisi wedi'i sefydlu ar gyfer gofyn i'r claf gytuno'n ffurfiol i gydsynio neu wrthod rhoi gwybod i'w feddyg teulu arferol am unrhyw driniaeth neu feddyginiaeth sy'n cael ei darparu.

PD12.2 Os yw'r claf yn cydsynio, mae'r manylion yn cael eu hanfon at feddyg teulu'r claf o fewn amserlen y cytunir arni yn lleol, ond nad yw'n fwy na phedair wythnos.

PD12.3 Os nad yw'r claf yn cydsynio ag anfon manylion i'w feddyg teulu, mae crynodeb o'r driniaeth a ddarparwyd yn cael ei roi'n uniongyrchol i'r claf fel y bydd hwnnw ganddo i gyfeirio ato yn y dyfodol, ac er mwyn ei drosglwyddo i'r meddyg teulu."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiad: 27 Mehefin 2006

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol